

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

rhwng

Swyddfa'r Cabinet

a'r

Comisiwn Ffiniau i Gymru

CYNNWYS

1. Annibyniaeth y Comisiwn Ffiniau i Gymru
2. Diben y Memorandwm
3. Strwythur a swyddogaeth y Comisiwn Ffiniau i Gymru
4. Atebolrwydd
5. Rolau a chyfrifoldebau

Atodiad A Gwybodaeth am y Comisiwn Ffiniau i Gymru, CFfDLC a'u cyrff noddi priodol.

Atodiad B Recriwtio a rheoli staff, tâl a threuliau.

Atodiad C Fframwaith Ariannol.

Atodiad D Cydymffurfio ag arweiniad a chyfarwyddiadau corfforaethol llywodraeth gyfan.

Atodiad E Telerau ac amodau penodi y cyfeirir atynt yn llythyrau penodi Aelodau'r Comisiwn Ffiniau i Gymru.

Atodiad F Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru.

1. ANNIBYNAETH Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU

- a. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru (CFfG) yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol Cyngorol (NDPB). Sefydli'r rhain fel arfer i gyflawni swyddogaethau sy'n rhai technegol neu sy'n mynnu niwtraliaeth wleidyddol, ac felly nid ydynt yn addas ar gyfer adrannau o dan reolaeth weinidogol uniongyrchol. Fel arfer cefnogir Cyrff Cyhoeddus Anadrannol gan weision sifil o adran noddi yn y llywodraeth.¹ Mae'r CFfG yn cael ei noddi gan Swyddfa'r Cabinet (SC).
- b. Noda arweiniad Trysorlys EM: *Mae angen trefniadau ar adrannau noddi i fonitro a deall strategaeth, perfformiad a chyflawniad eu Cyrff Cyhoeddus Anadrannol.....bydd y Trysorlys yn disgwyl i'w hadran noddi fod â mecanwaith ar gyfer mynnu rheolaeth briodol drosti, yn enwedig mewn materion ariannol.*
 - c. Mae'r CFfG yn annibynnol ar y Llywodraeth o ran:
 - yr argymhellion a wna ar unrhyw newidiadau angenrheidiol i etholaethau seneddol Tŷ'r Cyffredin yng Nghymru;
 - y camau gweithredu y mae'n eu cyflawni a'r barnau y mae'n eu llunio wrth benderfynu ar yr argymhellion hynny.
- d. Fodd bynnag, mae'r CFfG a SC yn nodi hefyd fod statws y CFfG rywfaint yn wahanol i Gyrff Cyhoeddus Anadrannol eraill. Fel Corff Cyhoeddus Anadrannol cyngorol yn hytrach na gweithredol, mae trefniadau cyllido a llywodraethu corfforaethol y CFfG (fel corff heb Fwrdd na Swyddog Cyfrifyddu) yn debycach i uned fusnes brif ffrwd SC na Chorff Cyhoeddus Anadrannol hyd braich llawn.
- e. Felly, mae'r CFfG a SC yn cytuno i weithio i sicrhau annibyniaeth barhaus argymhellion y CFfG yn ogystal â gweithio o fewn normau llywodraethu ariannol a llywodraethu corfforaethol da a fynnir gan holl unedau busnes a staff SC, gan gydymffurfio cyn belled ag y bo modd ag arweiniad y Trysorlys ar rolau a chyfrifoldebau adrannau nawdd a Chyrff Cyhoeddus Anadrannol.
- f. Bydd y Memorandwm hwn yn hwyluso ymddiriedaeth barhaus yng ngallu'r CFfG i gyflawni'r dyletswyddau a roddwyd iddo gan y Senedd fel corff annibynnol, a dilyn arfer gorau SC mewn llywodraethu ariannol a chorfforaethol. Wrth geisio sicrhau cydbwysedd rhwng y ddwy elfen hon, mae'r CFfG a SC yn ystyried yn benodol ddatganiad arweiniad y Trysorlys na ddylai unrhyw beth annog peidio â defnyddio synnwyr cyffredin llwyr.³

¹ *Categories of Public Bodies: a guide for departments*. Ebrill 2011. Tudalen 12.

www.civilservice.gov.uk/wp-content/uploads/2011/09/Classification-Guidance_-20_11_tcm6-38852.odf

² *Managing Public Money* (TSO, Llundain, 2007), Pennod 7 'Working with others.'

³ *Managing Public Money* (TSO, Llundain, 2007), Rhagair.

2. DIBEN Y MEMORANDWM

- a. Er mwyn cyflawni'r gofyniad cyffredinol i ddeall strategaeth, perfformiad a chyflawniad y CFFG, mae'r ddogfen hon yn amlinellu:
 - i. swyddogaeth a strwythur y CFFG;
 - ii. mecanweithiau atebolrwydd, rôl a chyfrifoldebau'r CFFG a SC, yn benodol:
 - trefniadau ar gyfer cyllido'r CFFG;
 - sut mae'r berthynas rhwng y CFFG a SC i'w chynnal.
- b. Bydd y CFFG a SC yn ofalus i ddeall a chydymffurfio â'u cyfrifoldebau priodol. Yn benodol, bydd y CFFG a SC yn ymdrechu i nodi'n glir annibyniaeth y CFFG o ran yr argymhellion y mae'n eu gwneud, a'r gwaith pwysu a mesur wrth lunio'r argymhellion hynny.
- c. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn adnodd a rennir yn rhannol rhwng y CFFG a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFFDIC). Bwriad y CFFG, CFFDLC a'u noddwyr priodol yw hyrwyddo i'r eithaf y graddau mae'r ysgrifenyddiaeth yn gweithredu fel adnodd a rennir, gan weithio i helpu'r ddau Gomisiwn i gyflawni eu cylchoedd gwaith statudol. Mae Memorandwm ar wahân yn amlinellu'r perthnasoedd rhwng y CFFG, ei noddwr, SC, CFFDLC a'i noddwr, Llywodraeth Cymru (LIC), fel yr ymw'nânt â gweithrediad y CFFG. Dylid darllen y ddau Femorandwm ar y cyd â'i gilydd. Mae Atodiad A yn rhoi mwy o wybodaeth am y CFFG, CFFDLC a'u cyrff noddi priodol.
- d. Bydd y Memorandwm hwn yn effeithiol o 1 Ebrill 2015. Caiff ei adolygu cyn gynted ag y bo modd pan fydd yr adolygiad tair blynedd cyfredol o'r Comisiynau Ffiniau wedi'i gwblhau, ac yna bob tair blynedd ar ôl hynny. Gellir gwneud diwygiadau unrhyw bryd trwy gytundeb rhwng y llofnodwyr.

3. STRWYTHUR A SWYDDOGAETH Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU

a. Strwythur

- i. Caiff strwythur cyffredinol y CFFG ei amlinellu yn Atodlen 1 i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd).
- ii. Mae'r CFFG yn cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a dau Aelod. Caiff ei wasanaethu gan Ysgrifennydd ac ysgrifenyddiaeth. Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd ex-officio y CFFG. Yn ymarferol, nid yw'n mynychu cyfarfodydd y CFFG. Fel arfer caiff y Dirprwy Gadeirydd a'r ddau Aelod eu penodi am gyfnod o bum mlynedd. Mae'r Dirprwy Gadeirydd yn cael ei benodi gan yr Arglwydd Ganghellor a rhaid iddo fod yn Farnwr yr Uchel Lys. Caiff y ddau Aelod eu penodi gan Arglwydd Lywydd y Cyngor neu Ysgrifennydd Gwladol. Fel arfer cânt eu penodi ar y cyd gan Arglwydd Lywydd y Cyngor ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Bydd penodiadau'r ddau Aelod yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Swyddfa'r Comisiynydd ar Benodiadau Cyhoeddus.
- iii. Ceir aseswyr (cyngorwyr technegol) i'r CFFG, sef Cyfarwyddwr Cyffredinol Arolwg Ordians a'r Bwrdd Ystadegau. Fe'u cynrychiolir mewn cyfarfodydd o'r Comisiwn gan ddirprwyon, pa bryd bynnag y bydd angen i'r Comisiwn ymgynghori â nhw ar eu meysydd arbenigedd. Hefyd ceir darpariaeth i Gomisiynwyr Cynorthwyol gael eu penodi i gynorthwyo Comisiynwyr gyda'u dyletswyddau.
- iv. Ceir mwy o wybodaeth am drefniadau'r CFFG ar gyfer recriwtio a rheoli staff, tâl a

threuliau yn Atodiad B.

- v. Mae SC yn adran noddï i'r CFFG.
- vi. Caiff yr ysgrifenyddiaeth ei rhannu'n rhannol rhwng y CFFG a CFFDLC. Mae Memorandwm ar wahân yn amlinellu'r perthnasoedd rhwng y CFFG, ei noddwr, SC, CFFDLC a'i noddwr, LIC, fel yr ymwnânt â gweithrediad y CFFG.
- vii. Dylid darllen y ddau Femorandwm ar y cyd â'i gilydd er mwyn galluogi'r ysgrifenyddiaeth a rennir i wasanaethu'r ddau Gomisiwn yn effeithiol.

b. Swyddogaeth

- i. Mae'r CFFG yn bodoli i gyflawni dyletswyddau statudol a bennwyd iddo gan y Senedd. Y dyletswyddau hyn yw:
 - adolygu'n barhaus ffiniau etholaethau seneddol Tŷ'r Cyffredin yng Nghymru;
a
 - gwneud argymhellion ar unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i'r ffiniau hynny.
- ii. Y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n nodi manylion y dyletswyddau hyn yw Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd, yn enwedig gan Ddeddf System Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011(PVSC)).⁴
- iii. Mae adroddiad yr Arolwg nesaf i'w gyflwyno cyn 1 Hydref 2018 yn unol â Deddf PVSC 2011, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013. Ar ôl mis Hydref 2018, mae arolygon i'w cyflwyno bob pum mlynedd.
- iv. Mae'r CFFG yn gweithredu polisi cwbl ddwyieithog sy'n cynnwys gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg. Bydd yr holl ddogfennaeth swyddogol a gyhoeddir gan y CFFG ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth gan unigolion a sefydliadau yn Gymraeg a Saesneg.

4. ATEBOLRWYDD

a. Atebolrwydd seneddol

- i. Bydd Gweinidogion sy'n gyfrifol am ddiwygio gwleidyddol a chyfansoddiadol yn atebol am fusnes y CFFG yn y Senedd. Lle bydd angen cyfathrebu â'r Senedd, bydd y CFFG a SC yn ofalus i gadw at eu cyfrifoldebau priodol. Yn benodol, bydd y CFFG a SC yn ymdrechu i ddatgan yn glir annibyniaeth y CFFG ynglŷn â'r argymhellion y mae'n eu gwneud, a'r gwaith pwyso a mesur wrth lunio'r argymhellion hynny.
- ii. Mae'n rhaid i'r CFFG gyflwyno adroddiad cynnydd blynyddol i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin, yn unol ag adran 10(4) o Ddeddf PVSC 2011.

b. Atebolrwydd ariannol

- i. Mae Ysgrifennydd Parhaol SC, fel Swyddog Cyfrifyddu SC

⁴ Deddf Etholaethau Seneddol 1986: www.legislation.gov.uk/ukpga/1986/56/contents
Deddf System Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011: www.legislation.gov.uk/ukpga/2011/1/contents

yn atebol am reolaeth ariannol y CFfG, a thrwy ei Weinidogion, mae'n atebol i'r Senedd am arian a gaiff ei wario gan SC. Y COAO yw'r prif ymgynghorydd gweinidogol ar faterion sy'n effeithio ar SC yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys dyrannu adnoddau i'r CFfG a gwariant y Comisiwn. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith rhai eraill, bod yn fodlon fod y CFfG:

- ii. adnoddau digonol i gyflawni ei gylch gwaith statudol;
- iii. adnoddau ariannol ar gael i sicrhau cynnal busnes y CFfG yn effeithlon ac effeithiol, yn unol â'r trefniadau "swm chwarterol sefydlog" a amlinellir mewn Memorandwm ar wahân rhwng SC, y CFfG, CFfDLC a LIC, yn amodol ar Setliad Adolygiad o Wariant cyffredinol SC;
- iv. systemau ar waith i ddiogelu priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol.
- v. Oni chytunir gan SC, ac, fel bo'r angen, Trysorlys EM, rhaid i'r CFfG ddilyn yr egwyddorion, rheolau, arweiniad a chyngor yn *Managing Public Money*, gan gyfeirio unrhyw anawsterau neu gynigion posibl ar gyfer eithriadau i Dîm Rheoli Busnes Grŵp y Cyfansoddiad.

Pan fydd y cyllid wedi'i gytuno, bydd awdurdod gan y CFfG i fynd i wariant a gymeradwyir yn y cyllid heb gyfeirio ymhellach at SC. Mae'r awdurdod hwn yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a bennir gan y ddogfen hon neu gan statud.

- vi. Fodd bynnag, rhaid i'r CFfG gael cymeradwyaeth ysgrifenedig SC ymlaen llaw cyn:
 - gwneud unrhyw ymrwymiad i fynd i unrhyw wariant na ddarperir ar ei gyfer yng nghyllid blynyddol y CFfG fel y'i cymeradwywyd gan SC;
 - mynd i wariant at unrhyw ddiben yr ystyrir ei fod neu y gellid ystyried ei fod yn newydd neu'n ddadleuol, sy'n cynnwys neu y gallai gynnwys goblygiadau cost sylweddol yn y dyfodol;
 - gwneud unrhyw newid sylweddol i raddfa gweithredu neu gyllid unrhyw fenter neu gynllun penodol a gymeradwywyd yn flaenorol gan SC;
 - gwneud unrhyw newid i bolisi neu arfer sydd â goblygiadau ariannol ehangach neu a allai effeithio'n sylweddol ar lefel yr adnoddau sydd eu hangen yn y dyfodol; neu
 - gyflawni polisiau sy'n mynd yn groes i'r egwyddorion, rheolau, arweiniad a chyngor yn *Managing Public Money*;
 - mynd i unrhyw wariant y mae angen awdurdodiad Bwrdd Cymeradwyaethau SC ar ei gyfer: bydd y CFfG yn sicrhau bod SC yn darparu cyngor digonol iddo o dro i dro ynglŷn â'r mathau o wariant sy'n disgyn i'r categori hwn.
- vii. Mae manylion pellach ynglŷn â'r fframwaith ariannol ar gyfer y CFfG wedi'u hamlinellu yn Atodiad C.

5. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

a. Y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn gorfforaethol

Adolygu a Blaen-gynllunio

- i. Yn ogystal â'r rhyngweithiadau angenrheidiol o ddydd i ddydd rhwng y CFfG a SC, bydd y partion yn trefnu cyfarfod chwe misol, neu drafodaethau priodol cyfwerth, i drafod materion, a allai gynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill:
 - amserlen a chynnydd cyffredinol yr arolwg nesaf o ffiniau;
 - y nodau ac amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod;

- unrhyw risgiau posibl a allai wneud cyflawni swyddogaethau statudol y CFfG yn fwy anodd neu'n llai anodd, neu a allai effeithio ar rediad esmwyth y CFfG yn gyffredinol;
 - ariannu'r arolwg nesaf o ffiniau;
 - staffio;
 - trafodaeth gymharol berthnasol o waith cyrff tebyg, gan gynnwys y Comisiynau Ffiniau ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon;
 - unrhyw faterion eraill y mae'r CFfG a SC yn cytuno bod angen mynd i'r afael â nhw.
- ii. Bydd y trafodaethau yn cael eu cefnogi gan unrhyw ddogfennaeth y bydd y partïon yn cytuno a fydd yn helpu. Gallai'r ddogfennaeth hon gynnwys, ymhlith rhai eraill, pethau fel alldro rhagolygol y CFfG yn ôl penawdau adnoddau, neu adolygiadau a rhagolygon eraill o weithgareddau yn y gorffennol ac yn y dyfodol.
- iii. Cynhelir y trafodaethau chwe misol rhwng SC a'r CFfG yn unswydd at ddibenion sicrhau llywodraethu corfforaethol effeithiol. Ni fydd trafodaethau yn ymestyn i gynigion neu argymhellion y mae'r CFfG yn eu paratoi o dan ei ddyletswyddau statudol.

Arweiniad cyffredinol:

- iv. Mae Trysorlys EM yn cyfarwyddo pob Corff Cyhoeddus Anadrannol i gydymffurfio â nifer o ddogfennau arweiniad cyffredinol a chyfarwyddiadau ar strwythurau corfforaethol (gweler Atodiad D). Mae'n rhaid i'r CFfG gydymffurfio â rhannau o'r arweiniad sy'n gymwys i'w strwythur a'i waith ei hun. Yn benodol, gydag arweiniad ar reoli risg; twyll, priodoldeb a rheoleidd-dra; ac arfarnu partneriaid posibl.

Rheoli Risg:

- v. Rhaid i'r CFfG sicrhau y delir â'r risgiau y mae'n eu hwynebu mewn modd priodol, yn unol ag agweddau perthnasol ar arfer orau mewn llywodraethu corfforaethol. Rhaid i'r CFfG ddatblygu a gweithredu strategaeth rheoli risg, yn unol ag arweiniad y Trysorlys *Management of Risk: Principles and Concepts*.

Twyll, priodoldeb a rheoleidd-dra:

- vi. Rhaid i'r CFfG fabwysiadu a gweithredu polisïau ac arferion i ddiogelu ei hun yn erbyn twyll a lladrad, yn unol ag arweiniad y Trysorlys *Managing the Risk of Fraud*. Mae'n ofynnol i holl aelodau'r CFfG a'i ysgrifenyddiaeth i weithredu fel yr amlinellir ym mharagraffau 3.8.5 o *Managing Public Money* os credant fod unrhyw aelod arall o'r CFfG neu ei ysgrifenyddiaeth yn ystyried gweithredu a allai:
- amharu ar ofynion priodoldeb neu reoleidd-dra;
 - amharu ar ofynion unrhyw ddogfen (yn cynnwys y Memorandwm hwn) sy'n amlinellu dyletswyddau ariannol ac anariannol y CFfG;
 - amharu ar unrhyw reolau eraill sy'n rheoli ymddygiad y CFfG;
 - nad yw'n weinyddu doeth a chynnil, gwerth am arian, effeithlonrwydd nac effeithiolrwydd;
 - yn amheus o ran ei ymarferoldeb, neu'n anfoesegol.

Arfarnu partneriaid posibl:

- vii. Mewn partneriaeth â SC, dylai'r CFfG gymryd pob cam rhesymol hefyd i arfarnu sefyllfa ariannol unrhyw Gorff y mae'n bwriadu mynd i gontract ag ef neu roi grant neu gymorth grant iddo.

b. Swyddfa'r Cabinet yn gorfforaethol

- i. Rhaid i SC sicrhau bod y CFfG yn cael ei gefnogi gan Dîm Rheoli Busnes sy'n cael

ei staffio gan arbenigwyr cyllid a chaffel, wedi'u cymryd o Is-adran Rheoli Cyllid ac Ystadau'r adran (neu ei holynydd). Rôl y Tîm Rheoli Busnes fydd darparu arbenigedd rheolaeth ariannol i'r CFfG, gan sicrhau bod gwariant y Comisiwn yn cael ei gofnodi a'i ragamcanu'n gywir. Bydd y Tîm Rheoli Busnes hefyd yn darparu arbenigedd masnachol i sicrhau bod y CFfG yn caffael nwyddau a gwasanaethau yn unol â pholisi SC a deddfwriaeth gaffael yr UE.

- ii. O fewn SC, rhaid i'r tîm noddi⁵ weithredu fel pwynt cyswllt o ddydd i ddydd i'r CFfG a bydd yn gweithio gyda thimau eraill ar draws y Llywodraeth fel y bo'n briodol. Y tîm noddi yw'r brif ffynhonnell cyngor i weinidogion ar eu cyfrifoldebau ynglŷn â'r CFfG, gan gynghori ar:
 - gynnydd y CFfG mewn perthynas â'i gylch gwaith statudol yn gyffredinol ac os bydd risg sylweddol i gyflawni'r cylch gwaith hwnnw yn benodol;
 - cyllid priodol i'r CFfG yng ngolau blaenoriaethau gwariant cyhoeddus cyffredinol SC; a
 - pha mor dda y mae'r CFfG yn sicrhau gwerth am arian wrth gyflawni ei gylch gwaith statudol.
- iii. Mae'r tîm noddi hefyd yn gyfrifol am drefniadau:
 - iv. Ariannol:
 - Sicrhau bod yr ysgrifenyddiaeth yn ymwybodol o'i dyletswydd i gydymffurfio â'r arferion gweinyddol hynny sy'n gymwys i wariant cyllid cyhoeddus y bydd SC yn eu pennu; a bod yr ysgrifenyddiaeth yn ystyried cyngor ar gyfrifoldebau rheoli ariannol Cyrff Cyhoeddus Anadrannol a amlinellir yn *"Public Bodies – A Guide for Departments"*, fel y caiff ei ddiwygio neu fel yr ychwanegir ato o dro i dro.
 - v. Staffio:
 - Cysylltu fel bo'r angen â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynglŷn â phenodiad y Dirprwy Gadeirydd;
 - Cynnal y broses recriwtio a phenodi aelodau eraill y CFfG pan fydd angen;
 - Cynnal y broses recriwtio ar y cyd â LIC a phenodi Ysgrifennydd y CFfG pan fydd angen;
 - Gwneud trefniadau ar gyfer penodi Comisiynwyr Cynorthwyol ar ôl i'r CFfG gynnal y broses recriwtio angenrheidiol.
 - vi. Llywodraethu:
 - Asesu'r risgiau i SC yn ymwneud â'r CFfG yn cyflawni ei gylch gwaith statudol;
 - Hysbysu'r CFfG mewn modd amserol am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r fframwaith statudol sy'n rheoli gwaith y CFfG;
 - Cefnogi'r CFfG i gadw'n gyfoes ag unrhyw arweiniad perthnasol a gyhoeddir gan y Trysorlys neu SC ynglŷn â Chyrff Cyhoeddus Anadrannol;
 - Cefnogi'r CFfG i weithredu unrhyw argymhellion a dderbyniwyd gan y Llywodraeth, sy'n effeithio ar y Comisiwn ac a gyhoeddir gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Pwyllgorau Dethol Seneddol eraill, neu awdurdod Seneddol arall;

⁵ Mae'r tîm hwn yn rhan o'r Grŵp Cyfansoddiad yn SC.

- Helpu i ddatrys yn briodol unrhyw anawsterau sy'n codi, gan geisio mynd i'r afael â nhw yn anffurfiol yn y lle cyntaf. Os yw'n briodol, dylai SC geisio trafod a datrys unrhyw bryderon ynglŷn â gweithgareddau'r CFfG gydag Ysgrifennydd y Comisiwn yn y lle cyntaf, a, dim ond lle bydd angen, codi pryderon gyda'r Dirprwy Gadeirydd;
- Bod â hawl mynediad i gofnodion a phersonél y CFfG at unrhyw ddiben gan gynnwys archwiliadau ac ymchwiliadau gweithredol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw hawl mynediad gan SC i unrhyw ddeunydd sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag argymhellion i'w gwneud i Weinidogion cyn iddynt gael eu cyhoeddi, oni bai bod y CFfG yn dymuno rhannu'r wybodaeth honno. Mae'n rhaid i'r Comisiwn Ffiniau ystyried pwysigrwydd annibyniaeth argymhellion y CFfG wrth ofyn am fynediad neu roi mynediad i unrhyw ddeunydd y CFfG;
- Sicrhau bod Swyddfa Cymru yn cael gwybodaeth fel bo'r angen, yn arbennig yn ystod unrhyw broses ddethol neu benodi'r Aelodau hynny. Mae hyn oherwydd bod y ddau Aelod o'r CFfG yn cael eu penodi ar y cyd fel arfer gan Arglwydd Lywydd y Cyngor ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

vii. Priodoldeb a rheoleidd-dra

- Hysbysu Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid SC a gweithredu fel yr amlinellir ym mharagraffau 3.8.5 o *Managing Public Money* os credir bod unrhyw aelod arall o'r CFfG neu ei ysgrifenyddiaeth yn ystyried gweithredu a allai:
 - amharu ar ofynion priodoldeb neu reoleidd-dra;
 - amharu ar ofynion unrhyw ddogfen (yn cynnwys y Memorandwm hwn) sy'n amlinellu dyletswyddau ariannol ac anariannol y CFfG;
 - amharu ar unrhyw reolau eraill sy'n rheoli ymddygiad y CFfG;
 - nad yw'n weinyddu doeth a chynnil, gwerth am arian, effeithlonrwydd nac effeithiolrwydd;
 - yn amheus o ran ei ymarferoldeb, neu'n anfoesegol.

viii. Gweithio ar y cyd

Mae'r tîm noddi a'r CFfG yn cytuno y bydd monitro, asesu a chyfnewid gwybodaeth rhwng y ddau barti:

- Yn defnyddio deialog agored i ddynodi unrhyw weithgarwch monitro neu asesu a fwriedir, gyda chyfnod rhybudd digonol, a gyda 'chyffyrddiad mor ysgafn â phosibl' yn yr asesiad ei hun;
- Cynnwys y CFfG wrth nodi'r ffyrdd gorau o wneud y gweithgareddau hyn, gan gynnwys y cysylltiad hwn gymaint â phosibl trwy gydol y gweithgareddau;
- Osgoi gweithgareddau dirybudd o'r math hwn oni bai ei bod yn gwbl angenrheidiol, meithrin diwylliant o gyfathrebu agored a 'dim pethau annisgwyl' gymaint â phosibl;
- Sicrhau bod yr holl weithgareddau yn cynnal gallu'r CFfG i gyflawni argymhellion i Weinidogion, gan gadw'r lefel annibyniaeth briodol ar gyfer y CFfG.
- Gwneud unrhyw weithgareddau asesu dirybudd yn fesurau cam olaf. Bydd eu defnydd yn anghyffredin o dan amgylchiadau arferol, a byddent wedi'u rhagflaenu gan ymgysylltu a deialog anffurfiol sy'n ceisio cyflawni'r un canlyniad.

c. Aelodau o'r Comisiwn Ffiniau i Gymru

- i. Mae Aelodau'r CFfG wedi'u recriwtio drwy gystadleuaeth agored, a'u dethol am ddangos ystod o alluoedd sicr, y bydd disgwyl iddynt barhau i'w dangos trwy gydol cyfnod eu penodiad. Mae'r rhain yn cynnwys y gallu i:
 - Weithio yn annibynnol ac mewn modd niwtral yn wleidyddol tra'n mynnu hyder rhanddeiliaid ar draws y broses ddemocrataidd yng Nghymru;
 - Meddwl yn ddadansoddol, dod i gasgliadau rhesymedig ar sail gwerthuso gwybodaeth yn gadarn a chyd-drafod yn effeithiol i gyflawni nodau;
 - Rheoli a chyflawni prosiectau a rhaglenni cymhleth yn llwyddiannus;
 - Gweithio'n llwyddiannus mewn tîm bach a hefyd mynd i'r afael a rhyngweithio'n effeithiol ag aelodau'r cyhoedd, mewn cyd-destunau fel cyfarfodydd cyhoeddus.
- ii. Bydd hefyd disgwyl i'r Aelodau:
 - Fynychu cyfarfodydd y CFfG;
 - Llunio cynigion yn ôl cylch gwaith y ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r CFfG;
 - Dilyn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a amlinellir gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus;
 - Cydymffurfio â'r telerau ac amodau penodi y cyfeiriwyd atynt yn eu llythyrau penodi (gweler Atodiad E).

d. Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru

- i. Dylai Ysgrifennydd y CFfG sicrhau bod y Comisiwn fel cyfanrwydd yn cael ei redeg ar sail y safonau, y penderfyniadau a'r rheolaeth ariannol a amlinellir yn Atodiad C. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith eraill:
 - Sicrhau cyflawni cylch gwaith statudol y CFfG yn llwyddiannus;
 - Cynghori'r Dirprwy Gadeirydd ac aelodau'r Comisiwn ar bob agwedd ar waith y CFfG;
 - Sicrhau bod gweithdrefnau effeithiol ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch y CFfG a bod pawb o fewn y Comisiwn yn gwybod amdanynt;
 - Gweithredu'n unol â'r Memorandwm hwn, *Managing Public Money* a chyfarwyddiadau ac arweiniad arall a gyhoeddir o dro i dro gan Drysorlys Ei Mawrhydi a SC;
 - Rhoi tystiolaeth pan gaiff ei alw gerbron y Senedd;
 - Cyfarfod yn rheolaidd â SC i drafod cynnydd fel y'i disgrifiwyd yn Adran 5(a)(i) [*Planning and Reporting*];
 - Hysbysu SC am orwariant neu danwariant tebygol ac am gamau unioni i fynd i'r afael â phob un;
 - Gweithio gyda SC i ddatrys unrhyw anawsterau sy'n codi mewn modd amserol;
 - Mynd gyda'r Swyddog Cyfrifyddu i wrandawiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ymwneud â'r CFfG, os oes angen.
- ii. Ceir datganiad llawn o gyfrifoldebau'r Ysgrifennydd yn Atodiad F.

Cytunwyd gan:



Simon James Pennaeth yr Is-adran Etholiadau, Swyddfa'r Cabinet



Steve Halsall Ysgrifennydd i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru

ATODIADAU

Atodiad A Gwybodaeth am y CFFG, CFfDLC a'u cyrff noddi priodol.

Atodiad B Recriwtio a rheoli staff, tâl a threuliau.

Atodiad C Fframwaith Ariannol.

Atodiad D Cydymffurfio ag arweiniad a chyfarwyddiadau corfforaethol llywodraeth gyfan.

Atodiad E Telerau ac amodau penodi y cyfeirir atynt yn llythyrau penodi

Aelodau'r Comisiwn Ffiniau i Gymru.

Atodiad F Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru.

ATODIAD A

Gwybodaeth am y Comisiwn Ffiniau i Gymru, CFfDLC a'u cyrff noddol

Y Comisiwn Ffiniau i Gymru

Sefydliad a ddisgrifir yn rhan 3 y ddogfen hon. Mae'r CFfG yn cynnwys nifer o Gomisiynwyr, Comisiynwyr Cynorthwyol ac aseswyr technegol, Ysgrifennydd a staff ysgrifenyddiaeth sy'n adnodd a rennir gyda CFfDLC.

Swyddfa'r Cabinet

Adran Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gyfraith etholiadol a chorff noddol i'r CFfG.

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC)

Sefydliad y disgrifir ei ddiben yn Neddff Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 sy'n cynnwys Comisiynwyr, Prif Weithredwr a staff ysgrifenyddiaeth, sy'n adnodd a rennir gyda'r CFfG. Y Comisiynwyr yw'r Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd ac nid mwy na thri aelod arall. Caiff y comisiynwyr eu penodi gan Weinidogion Cymru.

Llywodraeth Cymru (LIC)

Llywodraeth ddatganoledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel y'i cyfansoddwyd o dan Ddeddf LIC 2006. LIC yw'r corff noddol ar gyfer CFfDLC.

ATODIAD B

Recriwtio a rheoli staff, tâl a threuliau

Mae'r Dirprwy Gadeirydd yn Farnwr yr Uchel Lys ac nid yw'n cael ei dalu am waith y CFfG. Mae ganddo/ganddi hawl i gael ad-daliad am dreuliau yr eir iddynt wrth gyflawni dyletswyddau'r CFfG.

Telir ffi ddyddiol i **Aelodau'r CFfG** a gaiff ei phennu gan SC, yn amodol ar gytundeb y Trysorlys. Gwneir taliad i Aelodau, gyda'r didyniadau treth ac yswiriant gwladol angenrheidiol, am ddiwrnodau (neu hanner diwrnodau) a dreulir naill ai'n paratoi ar gyfer, yn mynychu neu'n gwneud gwaith dilynol ar gyfarfodydd neu swyddogaethau'r Comisiwn. Mae hawl gan Aelodau hefyd i gael ad-daliad am dreuliau yr eir iddynt wrth gyflawni eu dyletswyddau i'r CFfG.

Gellir penodi Comisiynwyr Cynorthwyol i gynorthwyo Aelodau'r CFfG gyda'u dyletswyddau. Telir ffi ddyddiol iddynt a gaiff ei phennu gan SC, yn amodol ar gytundeb y Trysorlys. Ar hyn o bryd y ffi yw £505.50 fesul diwrnod llawn a pro rata fesul hanner diwrnod a weithir. Bydd Comisiynwyr Cynorthwyol yn cyflwyno hawliadau i Ysgrifennydd y CFfG am amser a weithiwyd. Mae Ysgrifennydd y CFfG yn cymeradwyo hawliadau ac yn trefnu i'r hawliad gael ei dalu. Gwneir taliad i Gomisiynwyr Cynorthwyol trwy gyflogres CFfDLC, gyda'r didyniadau treth ac yswiriant gwladol angenrheidiol.

Mae deiliad swydd **Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru** hefyd yn Brif Weithredwr CFfDLC a chaiff ei recriwtio trwy broses recriwtio ar y cyd rhwng SC/LIC. Pan fydd y broses recriwtio wedi nodi unigolyn addas, bydd Arglwydd Lywydd y Cyngor neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn ei benodi ef / phenodi hi i swydd Ysgrifennydd y CFfG. Bydd yn cael eu cyflogi o dan y telerau ac amodau contract sydd ar waith o fewn LIC ar y pryd.

Swyddfa'r Cabinet yw adran noddi'r CFfG. Bydd prif swyddog y gydysgrifenyddiaeth (sy'n Ysgrifennydd y CFfG ac yn Brif Weithredwr CFfDLC) dan reolaeth fframwaith rheoli perfformiad presennol CFfDLC. O fewn y fframwaith hwn, bydd gan y prif swyddog ddau swyddog adrodd: bydd swyddog addas o SC yn gweithredu fel y swyddog adrodd mewn perthynas â rôl y prif swyddog fel Ysgrifennydd y CFfG, a bydd yn gweithredu fel y rheolwr llinell ar gyfer y prif swyddog ar faterion pennu amcanion personol ac arfarnu perfformiad mewn perthynas â rôl Ysgrifennydd y CFfG. Cyn y cynhelir bob arfarniad blynyddol, bydd y swyddog hwnnw o SC yn ymgynghori â Dirprwy Gadeirydd y CFfG ar faterion perfformiad. Bydd Cadeirydd CFfDLC yn cyflawni'r swyddogaeth hon ar gyfer rôl y prif swyddog fel Prif Weithredwr CFfDLC. Bydd y ddau swyddog adrodd yn trafod ac yn cytuno ar lefel berfformiad gyffredinol y prif swyddog ar ddiwedd pob blwyddyn adrodd.

Mae Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn cefnogi gwaith Ysgrifennydd a Chomisiynwyr y CFfG, ac mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC) yn darparu holl staff ysgrifenyddiaeth y CFfG. Mae hefyd yn darparu man gweithio'r CFfG a gwasanaethau cymorth cysylltiedig. Mae'r CFfG yn sicrhau'r gyfran o adnoddau'r gyd-ysgrifenyddiaeth y mae ei hangen arno mewn cytundeb â CFfDLC, yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng CFfDLC, y CFfG, SC a LIC. Dylai'r CFfG fodloni ei hun fod CFfDLC yn ymgymryd â dyletswyddau tuag at staff fel recriwtio, cadw, datblygu, peidio â gwahaniaethu, arfarnu perfformiad, cyfrifoldeb am gostau staff, cyflog, amodau gwasanaeth ac eraill.

Bydd **taliadau teithio a chynhaliath** ar gyfer y Dirprwy Gadeirydd, Aelodau'r CFfG, y Comisiynwyr Cynorthwyol ac Aseswyr yn cael eu talu ar gyfraddau SC sy'n weithredol ar yr adeg yr aethpwyd i'r gost. Bydd cyfraddau teithio a chynhaliath yn cael eu darparu gan SC ar ddechrau bob blwyddyn ariannol neu pan fydd newid mewn telerau. Bydd yr Ysgrifennydd a staff yr ysgrifenyddiaeth yn cael eu talu ar gyfraddau LIC sy'n weithredol ar yr adeg yr aethpwyd i'r gost.

ATODIAD C

Fframwaith Ariannol

Y canlynol yw'r fframwaith ariannol y bydd y CFfG yn gweithredu'n unol ag ef.

Diwygio ac Adolygu

Gellir newid y fframwaith ariannol hwn yn unol â gofynion Government Accounting a'r Trysorlys, er mwyn ystyried datblygiadau newydd. Os yw naill ai SC neu'r CFfG yn mynnu bod newidiadau yn cael eu gwneud, byddant yn hysbysu'r llall yn ysgrifenedig. Rhaid i unrhyw newidiadau gael eu cytuno gan y ddau barti.

Trefniadau cynllunio a chyllidebu

Bydd SC yn darparu cyllid i CFfDLC i dalu cost yr adnoddau a ddefnyddir gan y CFfG i gyflawni ei ddyletswyddau statudol, a fydd yn cynnwys costau staff yr ysgrifenyddiaeth. Bydd lefel y cyllid fydd ei hangen gan y CFfG yn cael ei chytuno yn unol â'r trefniadau "swm chwarterol sefydlog" a amlinellir mewn Memorandwm ar wahân rhwng SC, y CFfG, CFfDLC a LIC. Mae'r ddau barti yn cydnabod bod rhaid i'r CFfG gael ei ariannu i'r lefel angenrheidiol iddo gyflawni ei ofynion statudol yn effeithiol, ac mae'n rhaid iddo wneud hynny mewn ffordd sy'n sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian cyhoeddus. Bydd SC yn darparu manylion cyllid a ddyrennir iddo i'r CFfG, gan gynnwys unrhyw amrywiad o'r swm chwarterol penodedig, erbyn y dyddiad ymarferol cynharaf ac, os oes modd o gwbl, erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol dan sylw.

Bydd yr Ysgrifennydd yn paratoi ac yn cyflwyno i SC amcangyfrifon a ffurflenni ariannol ar yr adeg, ac ar y ffurf, y gall SC eu mynnu. Bydd SC yn darparu i'r Ysgrifennydd y wybodaeth (costau staff ac ati) a fydd ei hangen i lywio'r broses dyrannu adnoddau ar gyfer y CFfG gan SC. Bydd copi o'r ddogfennaeth a baratoir gan bob parti yn cael ei roi i'r llall er gwybodaeth ac i gytuno arnynt.

Yn amodol ar gymeradwyaeth gyffredinol SC o amcangyfrifon yr Ysgrifennydd, a chyngor SC ynglŷn â ph'un a oes unrhyw eithriadau penodol, gall yr Ysgrifennydd fynd i'r gwariant a gynlluniwyd heb gyfeirio ymhellach at SC.

Fodd bynnag, bydd y CFfG yn ymgynghori â SC ac, os cytunir bod hynny'n angenrheidiol, bydd yn cael cymeradwyaeth ysgrifenedig SC ymlaen llaw cyn:

- gwneud unrhyw ymrwymiad i fynd i unrhyw wariant na ddarperir ar ei gyfer yng nghyllid blynyddol y CFfG fel y'i cymeradwywyd gan SC;
- mynd i wariant at unrhyw ddiben yr ystyrir ei fod neu y gellid ystyried ei fod yn newydd neu'n ddadleuol, sy'n cynnwys neu y gallai gynnwys goblygiadau cost sylweddol yn y dyfodol neu ymhlygu unrhyw ymrwymadau ariannol newydd;
- gwneud unrhyw newid sylweddol i raddfa gweithredu neu gyllid unrhyw fenter neu gynllun penodol a gymeradwywyd yn flaenorol gan SC;
- gwneud unrhyw newid i bolisi neu arfer sydd â goblygiadau ariannol ehangach a allai gael ôl-ffeithiau neu a allai effeithio'n sylweddol ar lefel yr adnoddau sydd eu hangen yn y dyfodol; neu
- gyflawni polisiau sy'n mynd yn groes i'r egwyddorion, rheolau, arweiniad a chyngor yn *Managing Public Money*.

Rhaid i'r ddau barti ymgynghori ynglŷn ag unrhyw danwariant neu orwariant posibl ar ddarpariaeth y flwyddyn gyfredol a gytunwyd, a rhaid i'r Ysgrifennydd roi rhybudd am hyn ar y cyfle cynharaf.

Monitro ariannol

Bydd SC yn cysylltu â'r Ysgrifennydd yn rheolaidd i drafod y sefyllfa ariannol fwyaf diweddar, adolygu'r rhagolwg o wariant, caffaeliadau sydd i ddod ac unrhyw faterion eraill y gall y naill barti ystyried eu bod yn angenrheidiol.

Bydd yr Ysgrifennydd yn gyfrifol am gynhyrchu adroddiad blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn dangos y gwariant yn erbyn y cyllid a ddarparwyd ar gyfer diwedd y flwyddyn, a'r cyllid dros dro ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Rhaid i'r ffigurau a ddangosir yn yr adroddiad gyfateb i'r rheiny a adroddwyd gan SC ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Bydd yr adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y CFfG.

Cymeradwyaeth ar gyfer pryniannau a gwarediadau

Bydd y CFfG:

- yn ceisio sicrhau gwerth am arian wrth wneud pryniannau, gan ddangos defnydd effeithiol o adnoddau, osgoi gwrthdaro buddiannau, gan beidio fyth â defnyddio arian cyhoeddus er budd preifat;
- ni fydd yn caffael nac yn gwaredu buddiannau lesddaliadol neu rydd-ddaliadol ar wahân mewn eiddo;
- ni fydd yn honni gwneud unrhyw ymrwymadau ar gyfer caffael buddiannau lesddaliadol neu rydd-ddaliadol mewn eiddo;
- ni fydd yn gwaredu asedau heb gymeradwyaeth ymlaen llaw yn ysgrifenedig gan SC;
- o ran prynu a chadw storau a chyfarpar, yn cynnal stocrestri digonol sy'n rhoi manylion digon manwl am y cyfryw storau a chyfarpar, a fydd ar gael i SC neu ei archwilwyr eu harchwilio ar gais;
- yn ceisio sicrhau gwerth am arian wrth wneud pryniannau, gan ddangos defnydd effeithiol o adnoddau, osgoi gwrthdaro buddiannau, gan beidio fyth â defnyddio arian cyhoeddus er budd preifat.

Costau staff ac adeiladau

Caiff y rhain eu rheoli gan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng SC, y CFfG, CFfDLC a LIC.

Cofrestr lletygarwch, adloniant a diwrnodau i ffwrdd

Bydd Ysgrifennydd y CFfG yn cynnal cofnod o roddion a lletygarwch, a roddir ac a dderbynnir gan yr Ysgrifennydd, a bydd yn gofyn am gymeradwyaeth gan SC cyn ystyried unrhyw anrheg neu rodd.

Yn gyffredinol, diffinnir lletygarwch fel darparu ciniawau canol dydd, ciniawau gyda'r nos, a thocynnau i ddigwyddiadau chwaraeon/cymdeithasol neu hamdden. Nid yw'r enghreifftiau hyn yn cynnwys popeth.

Mae gwariant ar ddiwrnodau i ffwrdd, lletygarwch a rhoddion yn amodol ar y gweithdrefnau a bennir ar fewnwyd SC. Bydd y Tîm Rheoli Busnes yn darparu'r arweiniad hwn i'r CFfG.

Twyll, Dileadau a thaliadau arbennig

Bydd y CFfG:

- os bydd unrhyw achosion o dwyll, amheuaeth o dwyll neu afreoleidd-dra ariannol yn codi, yn hysbysu SC yn unol â gofynion cynllun ymateb i dwyll SC;

- yn hysbysu'r Tîm Rheoli busnes am unrhyw golledion, boed yn arian, gwerth asedau a gollwyd, a ddygwyd neu a ddifrodwyd neu dderbyniadau yr eir hebddynt, waeth beth yw eu gwerth;
- yn peidio â gwneud unrhyw daliadau arbennig, boed yn rhai ex gratia sy'n deillio o gamweinyddu o fewn swyddfa'r CFfG neu fel arall, heb gael cymeradwyaeth Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid SC yn gyntaf. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y rhoddir cymeradwyaeth o'r fath.

Argaeledd cofnodion

Bydd y CFfG yn trefnu bod pob cofnod ar gael ar gais i staff SC neu staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yn amodol ar adran 139 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 (gwaharddiad ar ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol heb awdurdod cyfreithiol).⁶

Mae'n ofynnol i Archwilwyr Mewnol SC ddarparu barn flynyddol i Swyddog Cyfrifyddu SC ar gyflwr cyffredinol rheoli, arolygu a llywodraethu risg yn SC. Mae SC felly yn cadw hawl mynediad i gofnodion ariannol a chofnodion eraill, pe bai'r angen yn codi fel rhan o adolygiad SC neu at ddibenion goruchwyliaeth gyffredinol a sicrwydd i Swyddog Cyfrifyddu SC. Gall Archwilwyr Mewnol SC hefyd ddarparu'r gallu i ymchwilio i dwyll ac afreoleidd-dra arall pe bai'r angen yn codi.

Yswiriant

Ni fydd y CFfG yn ymgymryd ag unrhyw yswiriant heb gymeradwyaeth SC ymlaen llaw, ac eithrio yswiriant trydydd parti sydd ei angen o dan y Deddfau Traffig Ffyrdd ac unrhyw yswiriant sy'n rhwymedigaeth statudol.

Yn achos unrhyw hawliad sy'n codi yn erbyn y CFfG yn sgil anaf i unrhyw berson, neu farwolaeth, boed yr unigolyn hwnnw yng nghyflogaeth y CFfG neu fel arall, neu yn achos unrhyw hawliad am ddifrod neu golled i eiddo, ni fydd y CFfG yn derbyn atebolrwydd i wneud unrhyw daliad heb awdurdod SC.

Benthycia, Benthyg, Indemniadau a Rhwymedigaethau digwyddiadol

Ni chaiff y CFfG agor gyfrif banc na chadw arian parod ymhellach nag imprest gweithio nad yw wedi'i gytuno ymlaen llaw gydag Is-adran Cyllid SC. Ni fydd gorddrafft banc gan y CFfG ar unrhyw adeg ac ni chaiff fenthyg arian mewn unrhyw fodd arall. Ni fydd yn gwneud benthyciadau, na rhoddion o arian nac asedau a brynwyd gan SC. Ni fydd yn rhoi gwarantau, indemniadau nac unrhyw lythyr o gysur nac yn mynd i unrhyw rwymedigaeth ddigwyddiadol heb gytundeb SC.

⁶ Gweler: www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/4/section/139

ATODIAD D

Cydymffurfio ag arweiniad a chyfarwyddiadau corfforaethol llywodraeth gyfan

Rhaid i'r CFfG gydymffurfio â'r dogfennau arweiniad cyffredinol a'r chyfarwyddiadau canlynol:

- Y ddogfen hon;
- Appropriate adaptations of sections of Corporate Governance in Central Government Departments: Code of Good Practice http://www.hmtreasury.gov.uk/.../governance_risklpsr_governance_corporate.cfm;
- Managing Public Money (MPM);
- Government Internal Audit Standards, http://www.hmtreasury.gov.uk/.../gia_guidance.cfm;
- Management of Risk: Principles and Concepts: (www.hmtreasury.gov.uk/media/3/5/FE66035BBCDCD4B311_057A7707D2521_F.pdf);
- Managing the Risk of Fraud; (www.hmtreasury.gov.uk/media/C/3/managing_the_risk_fraud_guide_for_managers.pdf);
- Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM), www.financialreporting.gov.uk/;
- Fees and Charges Guide, Pennod 6 o MPM;
- Departmental Banking: A Manual for Government Departments, atodiad 5.7 o MPM ;
- Llythyrau *Annwyl Swyddog Cyfrifyddu* perthnasol;
- Regularity, Propriety and Value for Money, www.hmtreasury.gov.uk/media/A/2/Reg_Prop_and_VfMNovember04.pdf;
- Egwyddorion Gweinyddu Da yr Ombwdsmon Seneddol (www.ombudsman.org.uk/improving_services/good_administration/index.html);
- Memorandwm y Swyddog Cydgyfnerthu, a llythyrau perthnasol y DCO;
- Arweiniad a chyfarwyddiadau perthnasol y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder);
- Arweiniad a chyfarwyddiadau perthnasol eraill a gyhoeddwyd gan y Trysorlys mewn perthynas â Chyfrifon Llywodraeth Gyfan;
- Cyfarwyddiadau ac arweiniad perthnasol arall a gyhoeddir gan yr Adrannau canolog;
- Cyfarwyddiadau ac arweiniad penodol a roddwyd gan yr Adran noddi;
- Argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, neu awdurdod Seneddol arall, sydd wedi'u derbyn gan y Llywodraeth ac sy'n berthnasol i'r Comisiwn Ffiniau i Gyrmu.
- Unrhyw arweiniad neu gyfarwyddiadau perthnasol ar gydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg.

Atodiad E

Telerau ac amodau penodi y cyfeirir atynt yn llythyrau penodi Aelodau'r Comisiwn Ffiniau i Gymru

GWYBODAETH I YMGEISWYR: Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU
PENODI AELODAU

1. Cefndir

1.1 Mae'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru yn un o bedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol, yn cwmpasu pob rhan o'r Deyrnas Unedig, a sefydlwyd gyntaf gan Ddeddf Tŷ'r Cyffredin (Ailddosbarthu Seddi) 1944. Mae pob Comisiwn yn gwbl annibynnol ar y Llywodraeth, yn anwleidyddol ac yn ddiuedd, ac mae pob un wedi ymgymryd â phum arolwg cyffredinol o ffiniau etholaethau seneddol ers ei sefydlu.

Aelodaeth

1.2 Mae'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru yn cynnwys y Dirprwy Gadeirydd sy'n Farnwr cyfredol yr Uchel Lys a dau aelod arall. Penodir un aelod gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru a phenodir un gan Weinidog SC.

Cadeirydd

1.3 Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd y Comisiwn mewn enw, ond ni fydd yn mynychu nac yn cadeirio cyfarfodydd. Y Dirprwy Gadeirydd yw Meistr Ustus Wyn Williams.

Ysgrifenyddiaeth

1.4 Caiff Comisiynwyr gefnogaeth ysgrifenyddiaeth. Mae hon yn cynnwys Ysgrifennydd (a benodir gan Weinidogion Llywodraeth y DU) a nifer o staff eraill.

2. Rôl y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru

2.1 Mae'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru yn gorff parhaol a gyfansoddir ar hyn o bryd o dan Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 sydd, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Comisiynau Ffiniau 1992 a rhan 2 o Ddeddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011, yn mynnu bod yr holl Gomisiynau yn cadw'r etholaethau seneddol yn eu hardal o dan adolygiad parhaus ac yn cynnal arolwg cyffredinol yn gyfnodol o'r holl etholaethau yn eu hardal ar yr un pryd. Mae'r arolwg nesaf i'w gwblhau erbyn 1 Hydref 2018, ac ar ôl hynny rhaid cynnal arolygon bob pum mlynedd.

3. Manyleb y person

3.1 Mae'n hanfodol fod aelodau o'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru wedi profi eu gallu i:

- weithio yn annibynnol ac mewn modd niwtral yn wleidyddol tra'n mynnu hyder rhanddeiliaid ar draws y broses ddemocrataidd yng Nghymru;
- meddwl yn ddadansoddol, dod i gasgliadau rhesymedig ar sail gwerthuso gwybodaeth yn gadarn a chyd-drafod yn effeithiol i gyflawni eu nodau;
- rheoli a chyflawni prosiectau a rhaglenni cymhleth yn llwyddiannus;
- gweithio'n llwyddiannus mewn tîm bach a hefyd mynd i'r afael a rhyngweithio'n effeithiol ag aelodau'r cyhoedd, mewn cyd-destunau fel cyfarfodydd cyhoeddus.

3.2 Yn ychwanegol at y meini prawf hanfodol hynny, byddai hefyd yn ddymunol i aelodau allu dangos fod ganddynt:

- ddealltwriaeth glir o, ac ymrwymiad i, faterion cydraddoldeb yn ogystal â herio arferion gwahaniaethol;
- dealltwriaeth glir o, ac ymrwymiad i, "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan".

4. Rôl a Dyletswyddau

4.1 Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol, anwleidyddol a chwbl ddiuedd. Mae wedi pwysleisio'n gryf iawn nad yw ac na dylai canlyniadau etholiadau blaenorol fod yn ystyriaethau pan fydd yn penderfynu ar ei argymhellion. Nid yw'r Comisiwn ychwaith yn ystyried effeithiau ei argymhellion ar batrymau pleidleisio yn y dyfodol.

4.2 Fel Aelod, bydd disgwyl i chi:

- fynychu cyfarfodydd y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru;
- llunio cynigion yn ôl cylch gwaith y ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru;
- dilyn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a amlinellir gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus;
- cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Comisiynwyr, gan sicrhau eich bod yn deall eich dyletswyddau, hawliau a chyfrifoldebau, a'ch bod yn gyfarwydd â swyddogaeth a rôl y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru.

Cyfnod Penodiad

5.1 Disgwylir i'r penodiadau ddechrau yn gynnar ym mis Hydred 2011 a dod i ben bum mlynedd ar ôl hynny.

5.2 Bydd posibilid o un ailbenodiad am hyd at bum mlynedd, yn amodol ar adolygiad boddhaol. Uchafswm cyfnod cyffredinol penodiad yw 10 mlynedd. Gall y penodiad gael ei derfynu'n gynnar gan y naill barti neu'r llall, gan roi rhybudd o un mis, yn ysgrifenedig.

5.3 Pe bai'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru yn cael ei ddi-ddymu, ei ailstrwythuro neu ei ddirwyn i ben cyn diwedd eich cyfnod penodiad arferol, bydd eich penodiad yn dod i ben adeg y diddymiad, neu ar ddyddiad arall a bennir mewn unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.

5.4 Bydd y penodiad yn cael ei derfynu hefyd fel arfer os cewch eich dyfarnu'n euog o drosedd; os cewch eich gwneud yn destun gorchymyn methdaliad; os bydd lefel eich presenoldeb yn amharu ar rediad da'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru; os cred yr Ysgrifennydd Gwladol eich bod wedi methu cyflawni'r dyletswyddau sy'n ofynnol ohonoch yn unol â'r safonau a ddisgwylir mewn swydd gyhoeddus; neu lle'r ydych fel arall yn anaddas neu'n analluog i gyflawni eich dyletswyddau fel aelod o'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru. Nid oes angen cyfnod rhybudd o angenrheidrwydd ar gyfer terfynu penodiad yn yr amgylchiadau hyn.

6. Tâl a Threuliau

6.1 Cewch dâl o £505.50 (yn amodol ar y didyniadau angenrheidiol ar gyfer treth ac yswiriant gwladol) fesul diwrnod llawn a pro rata fesul hanner diwrnod pan fyddwch yn gwasanaethu fel Aelod. Gellir newid yr holl daliadau.

6.2 Bydd costau teithio a chynhaliath rhesymol, yn amodol ar bolisiâu SC, yr ewch iddynt wrth fynychu cyfarfodydd y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru neu ar ymweliadau ar ran y Comisiwn, yn cael eu had-dalu ar gyfraddau a gymeradwyir gan SC. Dylai hawliadau am ad-dalu treuliau gael eu gwneud i Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru.

6.3 Gellir talu costau gofal plant a chostau dibynyddion eraill, o gyflwyno derbynebau, am gostau ychwanegol yr eir iddynt o ganlyniad uniongyrchol i ddyletswyddau a gyflawnir yn rhinwedd eich gwaith i'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru.

7. Ymrwymiad Amser / Lleoliad

7.1 Mae'r arolwg cyffredinol nesaf o etholaethau seneddol yng Nghymru i ddechrau ym mis Mawrth 2016. Mae gofyniad cyfreithiol ar y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru i gyflwyno ei argymhellion i Weinidogion yn dilyn yr arolwg hwn cyn 1 Hydref 2018.

7.2 Pan fydd arolwg cyffredinol ar waith, cynhelir chwech i ddeg o gyfarfodydd y flwyddyn fel arfer. Mae pob cyfarfod yn mynnu dau i dri diwrnod o amser aelodau'r Comisiwn. Mae hyn yn cynnwys darllen papurau cyn y cyfarfod a chlririo papurau yn deillio o'r cyfarfod.

7.3 Pan na fydd arolwg cyffredinol ar waith, bydd disgwyl i chi ymrwymo 1-2 ddiwrnod fesul chwarter.

7.4 Yng Nghaerdydd y cynhelir cyfarfodydd fel arfer. Nid oes unrhyw deithio rheolaidd arall. Fodd bynnag, bydd un Comisiynydd fel arfer yn mynychu cyfarfod blynyddol y Comisiynau Ffiniau Llywodraeth Leol a Seneddol (yn Belfast, Caerdydd, Caeredin neu Lundain). Pan fydd arolwg cyffredinol ar waith, gall Comisiynwyr fynychu'r gwrandawriadau cyhoeddus (ledled Cymru). Gall hefyd fod yn ofynnol i aelodau deithio ledled Cymru wrth gynnal busnes y Comisiwn.

8. Presenoldeb

8.1 Mae disgwyl i chi fynychu'r cyfarfodydd yn rheolaidd. Gellir terfynu eich penodiad os yw lefel eich presenoldeb yn amharu ar rediad da'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru.

9. Absenoldebau salwch

9.1 Os nad ydych, o ganlyniad i salwch, yn gallu cyflawni eich dyletswyddau am gyfnod hwy na thri mis, gellir terfynu eich penodiad.

10. Rhoddion a Lletygarwch

10.1 Mae disgwyl i chi sicrhau y gall derbyn rhoddion a lletygarwch ddal dŵr wrth fod yn destun craffu cyhoeddus. Dylid gwrthod rhoddion ble bynnag y bo modd, a dylid adrodd am unrhyw gynigion i Ysgrifennydd y Comisiwn. Lle byddai'n anrhadlon neu'n anodd fel arall i beidio â derbyn, dylech hysbysu Ysgrifennydd y Comisiwn am y rhodd, amcangyfrif o'r gwerth a phwy yw'r rhoddwr. Mae'n rhaid i chi gymryd cyfrifoldeb personol i sicrhau bod cofnod yn cael ei roi yng nghofrestr lletygarwch y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru. Yn yr un modd, dylid cymryd gofal i sicrhau nad oes unrhyw orwario gwastraffus yn ystod ciniawau gweithio ac achlysuron cymdeithasol eraill.

11. Ymddygiad

11.1 Byddwch yn parhau mewn swydd yn amodol ar gydymffurfio â Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a amlinellir gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, y Cod Ymarfer ar gyfer Comisiynwyr, ac unrhyw arweiniad a gyhoeddir gan SC.

12. Gwrthdaro Buddiannau

12.1 Mae'n rhaid i chi ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fusnes a all, neu y gellir canfod eu bod, yn dylanwadu ar eich barnau wrth gyflawni eich swyddogaethau. Dylai hyn gynnwys, fan lleiaf, buddiannau ariannol personol uniongyrchol ac anuniongyrchol. Fe'ch anogir hefyd i gofrestru eich buddiannau anariannol eich hun a buddiannau aelodau teulu agos a phobl sy'n byw yn yr un tŷ sy'n gysylltiedig yn agos â gweithgareddau'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru.

12.2 Byddwch yn gwerthfawrogi bod corff cyhoeddus o'r math hwn yn denu cryn ddiddordeb ymhlith y cyhoedd. Mae'n arbennig o bwysig sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau posibl rhwng eich cyfrifoldebau presennol (neu swyddi blaenorol) a chyfrifoldebau'r swydd hon. Mae'n rhaid i chi fod yn wylidwrus wrth ymgymryd â chyfrifoldebau newydd a allai wrthdaro â buddiannau'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru a dylech hysbysu SC cyn i chi dderbyn unrhyw benodiad newydd sy'n cael ei gynnig i chi.

12.3 Bydd y buddiannau hyn yn cael eu cynnwys mewn cofrestr o fuddiannau a gedwir gan Ysgrifennydd Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru, a rhaid i chi sicrhau bod eich cofnodion yn cael eu diweddarau.

12.4 Dylech wneud datganiad o fuddiant mewn unrhyw gyfarfod o'r Comisiwn os yw'n ymwneud yn benodol â mater arbennig sy'n cael ei ystyried. Pe bai mater penodol yn peri gwrthdaro buddiannau, mae'n ofynnol i chi dynnu allan o drafodaethau neu ystyriaeth o'r mater hwnnw.

12.5 Gall fod yn rhaid i SC ofyn i chi ymddiswyddo o'ch penodiad i'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru os dymunwch dderbyn penodiad arall.

13. Gweithgarwch Gwleidyddol

13.1 Ni ddylech ddal unrhyw swyddi am dâl neu swyddi di-dâl mewn plaid wleidyddol, ac ni ddylech fod yn rhan o weithgareddau gwleidyddol. Ni ddylech fod wedi bod yn aelod o blaid wleidyddol am y deng mlynedd flaenorol.

14. Methdaliad

14.1 Gellir terfynu eich penodiad os cawsoch eich gwneud yn destun gorchymyn methdalau.

15. Deddf Cyfrinachau

Swyddogol

15.1 Mae darpariaethau Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1911 i 1989 yn gymwys i aelodau o'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru. Gallai datgeliad anawdurdodedig o unrhyw wybodaeth a gafwyd yn ystod y penodiad hwn, neu ddefnydd o'r wybodaeth gennych chi neu eraill at fantais neu fudd personol, arwain at derfynu'ch penodiad yn gynnar, neu erlyniad troseddol hyd yn oed.

16. Cymorth i Aelodau ag Anableddau

16.1 Gwneir pob ymdrech i ddarparu pa gymorth rhesymol bynnag y bydd ei angen ar aelodau i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau.

ATODIAD F

Yr Ysgrifennydd i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru

Bydd yr Ysgrifennydd:-

Cyllid

- a) yn atebol am wariant, gweithlu, asedau cyfalaf ac offer y CFfG; am reolaeth effeithiol, effeithlon a darbodus; ac am sicrhau bod ystyriaethau ariannol a gwerth am arian yn cael eu hystyried yn llawn gan y CFfG;
- b) yn sicrhau rheolaeth dda ac effeithlon o asedau SC er mwyn cefnogi gwaith y CFfG;
- c) yn sicrhau bod yr ysgrifenyddiaeth yn cydymffurfio â'r arferion gweinyddol sy'n gymwys i wariant arian cyhoeddus y bydd SC yn eu pennu;
- d) yn cyfeirio at SC yn y lle cyntaf unrhyw fater sy'n ymwneud â neu sy'n mynnu cymeradwyaeth neu gydsyniad y Trysorlys;

Llywodraethu

- e) yn peidio â phennu'n absoliwt i unrhyw berson y cyfrifoldebau a amlinellir yn yr atodiad hwn;
- f) yn sicrhau bod y CFfG yn cydymffurfio ag unrhyw arweiniad cyffredinol a roddwyd gan SC i weithredu argymhellion a dderbyniwyd gan y Llywodraeth, sy'n effeithio ar y CFfG ac a gyhoeddir gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus; Pwyllgorau Dethol Seneddol eraill; neu awdurdod Seneddol arall;

Risg a gwybodaeth

- g) yn sicrhau y delir â'r risgiau y bydd y CFfG yn eu hwynebu mewn modd priodol, yn unol ag agweddau perthnasol ar arfer gorau mewn llywodraethu corfforaethol;
- h) yn sicrhau bod y CFfG yn datblygu ac yn gweithredu strategaeth rheoli risg, yn unol ag arweiniad Trysorlys Ei Mawrhydi *Management of Risk: Principles and Concepts*;
- i) yn sicrhau bod staff a Chomisiynwyr y CFfG yn gwybod am ac yn deall polisïau a gweithdrefnau SC ar reoli risg, ac yr ymdrinnir â gwybodaeth yn briodol o fewn y Comisiwn;
- j) yn sicrhau bod staff a Chomisiynwyr y CFfG yn gwybod am ac yn deall polisïau a gweithdrefnau SC ar gyfer delio â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth;

Twyll, priodoldeb a rheoleidd-dra

- k) yn sicrhau bod y CFfG yn mabwysiadu ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i ddiogelu ei hun yn erbyn twyll a lladrad, yn unol â chanllaw'r Trysorlys *Managing the Risk of Fraud*; ac yn cymryd pob cam rhesymol i arfarnu sefyllfa ariannol unrhyw gwmni neu gorff arall y mae'n bwriadu mynd i gontract ag ef neu roi grant neu gymorth grant iddo;
- l) yn cynghori SC ac yn gweithredu fel yr amlinellir ym mharagraffau 3.8.5 *Managing Public Money* os yw Aelod o'r CFfG yn ystyried gweithredu yr ystyria'r Ysgrifennydd:

- i. y byddai'n amharu ar ofynion priodoldeb neu reoleidd-dra; neu ofynion unrhyw ddogfen (yn cynnwys y Memorandwm hwn) sy'n amlinellu dyletswyddau ariannol ac anariannol y CFfG; neu ofynion unrhyw reolau eraill sy'n rheoli ymddygiad y CFfG;
- ii. nad yw'n weinyddu doeth a chynnil, gwerth am arian, effeithlonrwydd nac effeithiolrwydd; neu
- iii. yn amheus o ran ei ymarferoldeb, neu'n anfoesegol.

Cynllunio, staffio a gweithredu unrhyw ddyletswyddau statudol

- m) yn darparu unrhyw ddogfennaeth y cytuna'r partion a fydd yn helpu llywio a hwyluso'r trafodaethau chwe misol gyda SC fel y disgrifir yn rhan 5(a)(i) uchod (*Adolygu a Blaen-gynllunio*);
- n) yn sicrhau bod proffiliau staffio'r ysgrifenyddiaeth yn cael eu cadw fel bod y gwaith yn cael ei gyflawni i fodloni goblygiadau statudol y CFfG;
- o) yn sicrhau bod y CFfG yn cyflawni'n llwyddiannus ac yn effeithlon y dyletswyddau y rhoddwyd iddo gan y Senedd fel y pennir mewn statud.

